# Gosod falf aortig newydd heb bwythau ar gyfer stenosis aortig

22 Awst 2018

Mae'r driniaeth hon yn gweithio'n dda ar gyfer stenosis aortig ac nid oes unrhyw bryderon difrifol ynglŷn â pha mor ddiogel ydyw.

Mae stenosis aortig yn digwydd pan fydd y falf aortig, sy'n galluogi'r gwaed i lifo o'r galon, yn culhau. Mae hyn yn lleihau llif y gwaed o'r galon. Mae hyn yn rhoi straen ar y galon a gall achosi i'r galon chwyddo yn ogystal â churiad calon afreolaidd a phoen yn y frest a llewygu. Yn y driniaeth hon, caiff toriad ei wneud yn y frest. Mae sawl ffordd y gellir gosod y falf hon a bydd eich llawfeddyg yn egluro'r driniaeth y bydd yn ei defnyddio sydd fwyaf addas ar eich cyfer chi. Yna cysylltir y galon â pheiriant dargyfeiriol calon ac ysgyfaint. Caiff y falf aortig sydd wedi culhau ei thynnu a chaiff falf artiffisial ei gosod sy'n aros yn ei lle.

Gall NHS Choices fod yn lle da i gael gwybod mwy. Mae gan ganllawiau triniaethau ymyriadol NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

## *A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?*

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights

### *Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt*

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?

Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

Mae gan ganllawiau triniaethau ymyriadol NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

ISBN: 978-1-4731-3063-0

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights